# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

# DYDD GWENER 21AIN HYDREF 2022

**PRESENNOL** Mr D. MacGregor (Cadeirydd) (Aelod Lleyg)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
L. Davies D. Nicholas

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
K. Davies A. Evans A.G. Morgan P.T. Warlow
D.E. Williams J. Williams

**Aelodau Lleyg (Yn y Siambr):**
J. James M. MacDonald

**Hefyd yn bresennol o Archwilio Cymru (Yn rhithwir):**
J. Blewitt
N. Jenkins
A. Lewis

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**
C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Hemingway - Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
H. Pugh - Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
C. Powell - Prif Archwilydd
G. Davies - Rheolwr Cyllid
S. Hendy - Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owens - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**
R. Griffiths - Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
A. Parnell - Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
G. Ayers - Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees - Cyfieithydd ar y Pryd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 12.50 yp**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, y byddai trefn y materion ar yr agenda yn cael ei newid er mwyn ystyried Eitem Rhif 3.4 ar yr Agenda cyn Rhif 3.1 ac Eitem Rhif 5.4 ar yr Agenda cyn Rhif 5.1.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd K.V. Broom.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Yr Aelod | Eitem ar yr Agenda | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Davies | 5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4) | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| Y Cynghorydd L. Davies | 5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4) | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| M. MacDonald | 5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4) | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| Y Cynghorydd D. Nicholas | 5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4) | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| Y Cynghorydd P. T. Warlow | 5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4) | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed |
| Y Cynghorydd D. E. Williams | 5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4) | Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed<br>Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed |

## 3. DATGAN CYFRIFIADURON CYNGOR SIR GAERFYRDDIN.

### 3.1. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Gyfrifon. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif ganfyddiadau a ddeilliodd o'r archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru o gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.

Yr Archwilydd Cyffredinol oedd yn gyfrifol am ddarparu sylwadau ynghylch a oedd y datganiadau ariannol yn olwg gywir a theg ar sefyllfa Cyngor Sir Caerfyrddin ar 31 Mawrth 2022.

Tynnodd Mr J Blewitt, Cynrychiolydd Archwilio Cymru, sylw'r Pwyllgor at baragraff 6 o'r adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio rhagorol a oedd wedi ei gwblhau ers dosbarthu'r ddogfen.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad cenedlaethol parhaus o'r modd yr ymdrinnir â chyfrifon a'r datgeliadau sydd eu hangen ar gyfer asedau seilwaith. Dywedwyd wrth y

Pwyllgor nad oedd modd ardystio'r cyfrifon nes bod y diystyriad statudol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon, a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar ôl i'r Llythyr Sylwadau ddod i law. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o nodi nad oedd unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2021/22.**

## 3.2. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH I ARCHWILIO CYMRU - CYNGOR SIR GAR

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru a oedd wedi'i baratoi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â gofynion y Datganiad ar Safonau Archwilio (SAS440 - Sylwadau Rheolwyr).

Roedd angen cydnabyddiaeth ffurfiol y Pwyllgor o ymateb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Archwilio Cymru hefyd.

Yng ngoleuni'r canllawiau CIPFA diwygiedig yn ymwneud â'r newidiadau i brisio Asedau Seilwaith, a'r ffaith bod angen y diystyriad statudol i ddatrys y mater, cynigiwyd bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiwygio'r Llythyr Sylwadau, os yw'n briodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**3.2.1 Cydnabod yn ffurfiol y Llythyr Sylwadau gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i Archwilio Cymru (fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd).**

**3.2.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau dilynol y mae angen eu gwneud i'r Llythyr Sylwadau ar ôl i'r mater cenedlaethol ynghylch ymdrin ag Asedau Seilwaith gael ei ddatrys.**

## 3.3. YMHOLIADAU ARCHWILIO AR GYFER Y RHEINY SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Cafodd y Pwyllgor ymatebion yr Awdurdod i Archwilio Cymru ar nifer o feysydd llywodraethu a effeithiodd ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hynny yn berthnasol i reolwyr y Cyngor a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth Archwilio Cymru o'r Cyngor a'i

brosesau busnes er mwyn cynorthwyo Archwilio Cymru i roi barn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2021-22.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i'r aelodau y byddai unrhyw wallau teipio yn y ddogfen yn cael eu cywiro, gan gynnwys diwygio dyddiadau lle bo hynny'n briodol a darparu cyfeiriadau cyfredol at deitlau / enwau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a wnaed i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn amodol ar y cywiriadau teipio y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.**

## 3.4. DATGANIAD CYFRIFON CYNGOR SIR GAR 2021-22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Cyfrifon 2021/22 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin, a oedd wedi'i baratoi yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd yn 2018). Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i effaith barhaus Covid-19, wedi cyhoeddi canllawiau a oedd yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer cwblhau datganiadau ariannol 2021/22; yn unol â hynny, y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon 2021/22 wedi'u harchwilio oedd 30 Tachwedd 2022.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad cenedlaethol parhaus o'r modd yr ymdrinnir â chyfrifon a'r datgeliadau sydd eu hangen ar gyfer Asedau Seilwaith. Yn niffyg unrhyw ddatrysiad buan, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno diystyriad statudol o'r cod, ond ni ellid ardystio'r cyfrifon nes bod y diystyriad statudol ar waith. Yn unol â hynny, er mwyn i Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 gael ei gwblhau'n effeithiol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol, gofynnwyd am i'r Pwyllgor gymeradwyo roi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau dilynol y byddai angen eu gwneud mewn perthynas ag ymdrin ag Asedau Seilwaith. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r datganiad cyfrifon terfynol yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor a byddai adroddiad ar y sefyllfa derfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl i'r mater gael ei ddatrys.

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r pwyntiau amlwg yn y Datganiad Cyfrifon a oedd yn crynhoi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac a oedd yn cynnwys y diwygiadau y cytunwyd arnynt gydag Archwilio Cymru fel rhan o'i archwiliad.

Cyfeiriwyd at Gronfa'r Cyngor, a'r newidiadau i'r balansau yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer y flwyddyn ac, yn yr un modd, roedd y newid wedi'i wneud i falans y Cyfrif Refeniw Tai.

Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y symudiadau a wnaed o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, ac iddynt, mewn perthynas â throsglwyddiadau a oedd yn ymwneud â Chronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Datblygiadau Mawr, y Rhaglen Moderneiddio Addysg, Cyllid Cyfalaf a'r Fargen Ddinesig/Pentre Awel. Yn unol â hynny, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r symudiadau hynny yn ôl-weithredol a chymeradwyo creu Cronfeydd Wrth Gefn o ran Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Hwb Caerfyrddin, Strategaeth Wastraff,

Datgarboneiddio, Arian Cyfatebol Ffyniant Bro, Risgiau Chwyddiant, Grant Cynnal Refeniw, Cynllun Disgresiynol Costau Byw, Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ac Adnewyddu Ystafelloedd Cartrefi Preswyl.

Diolchodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'i dîm am eu gwaith rhagorol i baratoi'r Datganiad Cyfrifon.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y dyledwyr a'r credydwyr tymor byr a nodwyd yn adrannau 6.16 a 6.19 o'r adroddiad yn y drefn honno. Mewn ymateb i gais, cytunodd swyddogion i ddosbarthu dadansoddiad o'r categori 'arall' yn y categori dyledwyr tymor byr i'r Pwyllgor, a fyddai'n seiliedig ar lefel trothwy o dros £500k.

Cyfeiriwyd at argymhellion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan nodi bod yr ymatebion yn yr adran statws yn ymddangos yn niwlog ac nad oedd o reidrwydd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Rhoddodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol sicrwydd y byddai'r ddogfen yn cael ei hadolygu er mwyn darparu naratif mwy cadarn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**3.4.1** **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2021/22, fel y'i cyflwynir ar hyn o bryd, ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd, rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau dilynol sydd i'w gwneud o ganlyniad i'r mater cenedlaethol sydd heb ei ddatrys ynghylch ymdrin ag Asedau Seilwaith (yn ogystal â chynnwys y Dystysgrif Archwilio a chymeradwyaeth derfynol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor o'r Datganiad Cyfrifon wedi'i Archwilio).**

**3.4.2** **Cymeradwyo'n ôl-weithredol y symudiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ac iddynt. Yn enwedig, y trosglwyddiadau i:**

- **Y Gronfa Datblygiadau Mawr**
- **Cyllid cyfalaf y Rhaglen Moderneiddio Addysg**
- **Y Fargen Ddinesig/Pentre Awel**

**3.4.3** **Cymeradwyo'n ôl-weithredol greu'r cronfeydd wrth gefn canlynol:**

- **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
- **Hwb Caerfyrddin**
- **Strategaeth Wastraff**

- **Datgarboneiddio**
- **Arian Cyfatebol Ffyniant Bro**
- **Risgiau chwyddiant**
- **Grant Cynnal Refeniw**
- **Cynllun Disgresiynol Costau Byw**
- **Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio**
- **Adnewyddu Ystafelloedd Cartrefi Preswyl**

## 4. DATGANIAD ARIANNOL AWDURDOD HARBWR PORTH TYWYN 2021-22.

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a'r pwerau dirprwyedig a ymgorfforir yn y Mesur Llywodraeth Leol, bu'r Pwyllgor yn ystyried cyfrifon 2021-22 yr Awdurdod Harbwr wedi'u harchwilio.

Mae ystod o bwerau a dyletswyddau statudol gan Gyngor Sir Caerfyrddin er mwyn gwella, cynnal a rheoli harbwr Porth Tywyn, a hynny drwy Orchymyn Adolygu Harbwr Porth Tywyn 2000.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at Ddeddf Harbyrau 1964, a oedd yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Harbwr lunio datganiad cyfrifon blynyddol ynghylch gweithgareddau'r harbwr. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cyflwynwyd y cyfrifon ar ffurf cyfrif incwm a gwariant blynyddol ar wahân a datganiad balansau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi rhoi prydles hirdymor i The Marine & Property Group Ltd ym mis Ebrill 2018, a oedd wedi cymryd cyfrifoldeb dros gynnal a rheoli Harbwr Porth Tywyn; o ganlyniad, roedd llawer llai o weithgaredd ar y datganiad.

Dywedwyd bod cost net gweithgareddau'r harbwr yn 2021-22 yn £687k ac mai Cyngor Sir Caerfyrddin oedd wedi cyllido'r holl weithgareddau'n llawn. Roedd yr asedau sefydlog a ddelir ar 31 Mawrth 2022 yn dod i gyfanswm o £900k. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y gostyngiad o £116k yn y costau o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod y gwariant gwaith cyfalaf £69k yn llai, ynghyd â chynnydd o £47k mewn incwm.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Porth Tywyn wedi'i archwilio ar gyfer 2021-22.**

## 5. DATGAN CYFRIFON CRONFA BENSIWN DYFED:

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Davies, y Cynghorydd L. Davies, y Cynghorydd D. Nicholas, Mr M. MacDonald, y Cynghorydd P. T. Warlow a'r Cynghorydd D.E. Williams wedi datgan buddiant yn eitemau 5.1 – 5.4 ar yr agenda yn gynharach]

## 5.1. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL - Y CRONFA BENSIWN DYFED

Cafodd y Pwyllgor adroddiad Archwilio Cymru ar yr archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn ystyried a oedd y datganiad ariannol yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2022 a'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Rhoddodd Mr J Blewitt, Cynrychiolydd Archwilio Cymru, grynodeb o effaith pandemig COVID-19 ar archwilio cyfrifon fel y nodir yn Arddangosyn 1 yr adroddiad archwilio.

Tynnodd Mr J Blewitt, Cynrychiolydd Archwilio Cymru, sylw'r Pwyllgor at baragraff 6 o'r adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio rhagorol a oedd wedi ei gwblhau ers dosbarthu'r ddogfen.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar ôl i'r Llythyr Sylwadau ddod i law. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o nodi nad oedd unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar gyfer Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2021-22.**

## 5.2. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH I ARCHWILIO CYMRU - CRONFA BENSIWN DYFED

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru a oedd wedi'i baratoi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â gofynion y Datganiad ar Safonau Archwilio (SAS440 - Sylwadau Rheolwyr).

Roedd angen cydnabyddiaeth ffurfiol y Pwyllgor o ymateb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Archwilio Cymru hefyd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei gydnabod.**

## 5.3. YMHOLIADAU ARCHWILIO AR GYFER Y RHEINY SYDD YN GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Cafodd y Pwyllgor ymatebion yr Awdurdod i Archwilio Cymru ar nifer o feysydd llywodraethu a effeithiodd ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn. Roedd yr ystyriaethau hynny yn berthnasol i reolwyr Cronfa Bensiwn Dyfed a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth

Archwilio Cymru o Gronfa Bensiwn Dyfed a'i phrosesau busnes i'w gynorthwyo i roi barn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2021-22.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i'r aelodau y byddai unrhyw wallau teipio yn y ddogfen yn cael eu cywiro, gan gynnwys diwygio dyddiadau lle bo hynny'n briodol a darparu cyfeiriadau cyfredol at deitlau / enwau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a wnaed i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn amodol ar y cywiriadau teipio y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.**

### 5.4. ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN DYFED 2021-22

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cafodd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon 2021-22 wedi'i archwilio, a oedd yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Dyfed, eu rhoi gerbron y Pwyllgor i'w cymeradwyo. Roedd yr adroddiad blynyddol yn darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad a hyblygrwydd ariannol y Gronfa am y flwyddyn 2021-22.

Diolchodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i Reolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiynau a'i dîm am eu gwaith rhagorol i gydlynu Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon y Gronfa.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Wrth gydnabod bod 2021-22 wedi bod yn flwyddyn heriol a chythryblus, dywedodd yr Aelodau mai braf oedd nodi bod y Gronfa, er gwaethaf hyn, wedi sicrhau adenillion llwyddiannus.  Yn hyn o beth, cyfeiriodd y Cadeirydd at y sefyllfa actiwaraidd gadarn, y barnwyd ei bod yn adlewyrchiad cadarnhaol o ddiwylliant y sefydliad a'i ddull darbodus.

Codwyd pryderon nad oedd y Gronfa wedi derbyn datganiad cyfrifon gan 'Prudential' ar gyfer naill ai 2020-21 neu 2021-22.  Eglurodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiynau fod hwn yn fater cenedlaethol a bod trafodaethau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn parhau.   Rhoddwyd sicrwydd y byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael gwybod cyn gynted â bod diweddariad ar y mater hwn ar gael.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2021-22.**

## 6. ADOLYGIAD DILYNOL: GWASANAETHAU CYNLLUNIO - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad dilynol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â Gwasanaethau Cynllunio y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn nodi bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â'r argymhellion a chamau y cytunwyd arnynt a oedd yn deillio o adolygiad cychwynnol Archwilio Cymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021.

Cydnabu'r Pwyllgor ganfyddiadau cadarnhaol yr adolygiad dilynol a gadarnhaodd fod y Cyngor wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny i sicrhau gwelliannau sylweddol yn y gwasanaethau cynllunio. Hefyd, roedd y Pwyllgor yn falch o nodi y rhagorwyd ar y safonau perfformiad Cynllunio blynyddol PAM/018 a PAM/019 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, am y tro cyntaf yn 2021/22.

Roedd Archwilio Cymru wedi canmol y Cyngor am y camau cyflym ac adeiladol a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a oedd yn deillio o'r adolygiad cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021. Yn ei dro, mynegodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ei ddiolch am y gefnogaeth a roddwyd i'r is-adran Gynllunio gan bwysleisio ymroddiad swyddogion a oedd wedi gwneud ymdrechion rhagorol yn ystod cyfnod o drawsnewid sylweddol.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Yn sgil y sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor o ganlyniad i'r adroddiad cadarnhaol, ynghyd â'r gwaith monitro parhaus a fyddai'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru, cynigiwyd y gellid dileu'r adolygiad o wasanaethau cynllunio oddi ar Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23.

Dywedodd aelod fod y ffordd yr aeth y Cyngor ati i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan adolygiad cychwynnol Archwilio Cymru yn darparu astudiaeth achos enghreifftiol o arfer gorau y gellid ei rhannu er budd Awdurdodau eraill.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adolygiad dilynol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ar y cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf 2021, sef Adolygiad o'r Gwasanaethau Cynllunio.**

## 7. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23. Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r rhaglen archwilio a oedd yn dangos cyfradd gwblhau o 33% hyd yn hyn.

Yna tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr adolygiad wedi'i gwblhau o systemau ariannol allweddol yr Awdurdod mewn perthynas â'r Gyflogres Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn nodi cwmpas yr adolygiad, y materion a nodwyd, a'r argymhellion a wnaed. Cydnabu'r Pwyllgor ganlyniad cadarnhaol yr adolygiad a oedd yn rhoi sicrwydd bod system y Gyflogres Pensiynau yn cael ei hystyried yn gadarn ac yn foddhaol.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Cafwyd ymholiad mewn perthynas â'r pedwar diwrnod ychwanegol a gymerwyd i gwblhau'r archwiliad o Gronfa Degwm Dyfed. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod nifer y diwrnodau archwilio a neilltuwyd i ddechrau yn ddangosol yn unig a darparwyd sicrwydd nad oedd pryderon ynghylch yr archwiliad o Gronfa Degwm Dyfed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynllun Archwilio Mewnol 2022/23 a'r rhannau o'r adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2021/22 a oedd wedi ei lunio i fodloni'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran 13 Amcan Llesiant y Cyngor yn erbyn cefndir o amgylchiadau digynsail yn sgil pandemig Covid-19, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Cydnabuwyd mai hon oedd y flwyddyn gyntaf o gyflwyno adroddiadau o dan y fframwaith deddfwriaethol diwygiedig a ddarparwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac felly gofynnwyd am eglurder ynghylch rôl y Pwyllgor o ran cyflawni ei rwymedigaethau deddfwriaethol i adolygu'r Adroddiad Blynyddol. Yn unol â hynny, cytunodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol, Perfformiad a Phartneriaeth i adolygu'r dulliau a oedd yn cael eu defnyddio gan Awdurdodau eraill, a byddai cyngor hefyd yn cael ei geisio oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn hyn o beth. Awgrymwyd hefyd bod sesiwn datblygu yn cael ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor i alluogi'r Pwyllgor i roi sylw priodol ac ychwanegu gwerth at y broses o ddatblygu'r Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2021/22 yn cael ei dderbyn.**

## 9. BLAENRHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith ar gyfer cylch cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23, a oedd yn nodi'r eitemau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd oedd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â rhaglen sesiynau datblygu er mwyn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i Aelodau gyflawni eu rôl yn effeithiol ar y Pwyllgor.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Yn sgil y canlyniadau cadarnhaol a oedd yn deillio o adroddiad dilynol Archwilio Cymru a ystyriwyd fel rhan o eitem 6 ar yr agenda, gofynnodd y Pwyllgor fod yr adolygiad o wasanaethau cynllunio yn cael ei ddileu oddi ar Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23.

Bod gweithdy yn cael ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor i alluogi'r Pwyllgor i gyfrannu at y broses o ddatblygu Adroddiad Blynyddol y Cyngor.

Dywedwyd y byddai'r sesiwn datblygu ar ymarfer Hunanasesu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 2022.

Codwyd pryderon gan rai aelodau ynghylch gallu'r Pwyllgor i ychwanegu gwerth at y meysydd yn ei faes gorchwyl oherwydd hyd agendâu'r Pwyllgor, a waethygwyd ymhellach gan yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r agendâu, a oedd yn darparu cyfnod cyfyngedig i adolygu'r adroddiadau. Er y cydnabuwyd bod y Blaengynllun Gwaith yn nodi amserlen y Pwyllgor ar gyfer pob cyfarfod, cytunwyd i ymgynghori â'r aelodau ynghylch yr agenda ddrafft ar gyfer pob cyfarfod er mwyn eu galluogi i gyfrannu at reolaeth yr agenda. Awgrymwyd hefyd fod swyddogion yn ystyried y posibilrwydd o gyhoeddi adroddiadau fesul cam, gan roi digon o amser i aelodau ystyried eu cynnwys.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Blaenraglen Waith 2022/23.**

**10. COFNODION GRWPIAU PERTHNSAOL I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO:**

**10.1. PANEL GRANTIAU**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Panel Grantiau a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2022.**

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**